## P-05-691 – Bargen Deg ar gyfer Ralïo mewn Coedwigoedd yng Nghymru.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rally4Wales ar ôl casglu 5,246 llofnod.

### Geiriad y ddeiseb

*Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y gost o ddefnyddio ffyrdd mewn coedwigoedd yng Nghymru at ddibenion ralïo ceir yn deg ac yn gydnaws â'r costau a geir yn Lloegr a'r Alban.*

*Byddai'r gost gyfredol yng Nghymru yn dyblu o dan strwythur prisio arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru, a fyddai'n dod i rym ym mis Mehefin 2016. Mae hyn yn gwbl groes i'r contractau cyfatebol newydd y mae'r comisiynau coedwigaeth wedi'u rhoi ar waith yn Lloegr a'r Alban.*

*Tra bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio dyblu'r costau hyn yng Nghymru, bydd costau yn Lloegr a'r Alban ond yn cynyddu 0.7% (o'u cymharu â'r contract blaenorol).*

*Mae'r diwydiant ralïo yng Nghymru, sydd werth £15 miliwn, yn dod â buddion twristiaeth di-ri i gefn gwlad Cymru. O dan y drefn gostau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio ei chyflwyno, byddai cynnal digwyddiadau yng Nghymru yn anghynaliadwy yn y dyfodol oherwydd y costau uchel. Rydym yn gofyn am gynnal ymchwiliad llawn i'r mater hwn er mwyn canfod pam mae'r costau*

*arfaethedig hyn wedi chwyddo cymaint o'u cymharu â rhanbarthau eraill.*

### *Gwybodaeth ychwanegol*

*Mae #Rally4Wales yn grŵp ymgyrchu a sefydlwyd gan gystadleuwyr, trefnwyr a chefnogwyr ralïo i lobio Llywodraeth Cymru ynghylch ymdrechion Cyfoeth Naturiol Cymru i gynyddu costau mewn modd sy'n hollol groes i gynlluniau ei gymheiriaid yn Lloegr a'r Alban.*

*Rydym wedi cysylltu â nifer o Aelodau'r Cynulliad er mwyn mynegi ein pryderon, gan gynnwys Ken Skates, Carl Sargeant, Leanne Wood a Llyr Gruffudd, ac rydym yn ymwybodol bod rhai o'n cefnogwyr wedi lobïo Aelodau eraill yn y dyddiau diwethaf. Yn ogystal, rydym wedi cael cefnogaeth gan Aelodau Seneddol yng Nghanolbarth Cymru.*

*Rydym hefyd wedi codi'r mater gyda Fforwm Modurol Cymru, sy'n cefnogi ein safiad yn llawn.*

*Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn honni nad yw, am flynyddoedd lawer, wedi codi digon o dâl at ddibenion atgyweirio difrod ar y ffyrdd a achoswyd gan ralïo. Fodd bynnag, mae'n amhosibl deall sut y gellir defnyddio'r ddadl hon i gyfiawnhau cynnydd o 100% yn y costau a nodir uchod yn wyneb y sefyllfa dra wahanol a welir yn Lloegr a'r Alban. Nid oes unrhyw wahaniaeth technegol rhwng paratoi ac atgyweirio ffyrdd yng Nghymru a gwneud y gwaith hwn yn Lloegr a'r Alban.*

*Ni allwn gredu bod y costau hyn yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa, ac rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i gynnal ymchwiliad i'r rhesymau pam mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd camau a fydd, yn y pen draw, yn dinistrio elfen hanfodol o economi wledig Cymru.*

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Wrecsam
- Gogledd Cymru